Cross Party Autism Group
Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth

DRAFT

**Cofnodion**
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth**
**4 Rhagfyr 2019**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**1 CROESO**
Croesawodd Mark Isherwood AC, Cadeirydd y Grŵp, bawb i'r cyfarfod, a fynychwyd hefyd gan Swyddog y Grŵp, Dai Lloyd AC, Huw Irranca-Davies AC a staff yn cynrychioli Mike Hedges AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Gruffydd AC.

**2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI**
Cytunwyd bod y cofnodion yn gyfrif cywir o'r cyfarfod blaenorol. Rhannwyd gohebiaeth rhwng y Cadeirydd, Mark Isherwood AC, â Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i gael sylwadau arno.

Cyhoeddodd Mark Isherwood hefyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Meleri Thomas, sydd wedi darparu ysgrifenyddiaeth i'r grŵp ers saith mlynedd. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer ysgrifennydd grŵp newydd. Etholwyd Samuel Stone, ar ran Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru.

Ymddiheurodd Mark Isherwood ar ran Gareth Tarrant o'r Cyfeiriadur Awtistiaeth, a oedd i fod i drafod eu prosiect cyflogaeth, ond nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

**3 FFRINDIAU GIGIAU**
Cyflwynodd Kai Jones, cydlynydd y prosiect Ffrindiau Gigiau sy'n cael ei gynnal gan Anabledd Dysgu Cymru, y cynllun, sydd â'r nod o gefnogi pobl awtistig a'r rheini ag anableddau dysgu i gael mynediad at ddigwyddiadau. Mae Ffrindiau Gigiau'n paru pobl â gwirfoddolwyr sy'n rhannu'r un diddordebau er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth wneud pethau y byddent yn eu mwynhau fel arall, fel mynd i gyngherddau, digwyddiadau chwaraeon neu i'r theatr. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect ar waith yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Dyffryn Morgannwg. Trafododd Kai'r cynlluniau sydd i ehangu'r rhaglen y flwyddyn newydd, gan ei rhoi ar waith ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taff yn ogystal â datblygu rhwydwaith '*Stay Up Late*' lle mae pobl anabl wedi'u grymuso i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut maen nhw'n treulio'u hamser.

**4 DIWEDDARIAD GAN SNAP CYMRU**
Rhoddodd Prif Weithredwr SNAP Cymru, Denise Inger, ddiweddariad ar y gwaith y mae'r elusen yn ei wneud ledled Cymru. Prif faes gwaith SNAP Cymru yw hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb ym maes addysg. Mae SNAP Cymru yn cefnogi pob disgybl yng Nghymru sy'n profi unrhyw anawsterau wrth gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac mae llawer o'r atgyfeiriadau a gânt yn ymwneud â disgyblion awtistig. Er bod atgyfeiriadau at SNAP Cymru wedi dyblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, maent wedi colli traean o'u staff.

Atgoffodd Denise y rheini a oedd yn bresennol bod y system AAA gyfredol yn parhau yn ei lle er ein bod yn symud yn barhaus at system newydd o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Roedd Denise yn croesawu'r llwybrau at asesu a ddatblygwyd ers y Strategaeth Awtistiaeth, ond amlinellodd rai o'r materion parhaus a godwyd gyda hwy, gan gynnwys diffyg cefnogaeth yn dilyn diagnosis, gwaharddiadau oherwydd gwahaniaethu ar sail anabledd a rheoli symudiadau. Rhoddodd Denise wybodaeth am sut i gael gafael ar ffurflen gymorth SNAP Cymru drwy eu gwasanaeth llinell gymorth a'u ffurflen ymholi ar y we: http://www.snapcymru.org/help-for-families/

**5 UNRHYW FATER ARALL A SYLWADAU CLOI**

Rhoddwyd gwybod i'r rheini a oedd yn bresennol am yr ymgynghoriad agored ar newidiadau arfaethedig i Lwfansau Myfyrwyr Anabledd, sydd ar agor tan yr 17 Chwefror 2020: https://gov.wales/changes-disabled-students-allowances

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth yn cael ei gynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Chwefror 2020.

DRAFT